

BWYD A DIOD CYMRU
FOOD AND DRINK WALES



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.gov.wales





Deall Rhwystrau Achredu yn y Sector Bwyd a Diod yng Nghymru

DEC UN: Crynodeb Gweithredol

Adroddiad gan y Ganolfan Diwydiant Bwyd Zero2Five ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd ar gyfer yr Is-adran Bwyd Llywodraeth Cymru fel rhan o Rhaglenni i Gefnogi'r Sector Bwyd a Diod.

Rheolwr Prosiect:

Susie Abson

Tîm y Prosiect:

Leanne Ellis, Ellen Evans, Jessica Lacey a Helen Taylor

Adroddiad wedi'i Baratoi Gan:

Dr Ellen W. Evans

Cyfranwyr:

Jackie Evans, Anne-Marie Flynn, Ffion Hewson, Janet Holmes,
David Lloyd, Jamie Old, Katie Pressdee, Bethan Rowlands a
Ginnie Winter.

Cefndir

Yr Angen am Gynlluniau Diogelwch Bwyd (FSSs)

Mae Cynlluniau Diogelwch Bwyd (FSSs) yn hanfodol i'r diwydiant bwyd a diod, maent yn darparu'r fframwaith ar gyfer cydymffurfio o fewn y diwydiant i gynorthwyo yn y broses o gynhyrchu bwyd diogel a chyfreithiol, twf a mynediad i'r farchnad.

Gwerthusir FSSs gan archwiliad systematig o fusnes bwyd a elwir yn archwiliad i fesur cydymffurfiaeth arferion gyda system a bennwyd ymlaen llaw, ac a yw'r system yn cael ei rhoi ar waith yn effeithiol ac yn addas i gyflawni amcanion.

Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020

Mae Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020 yn dangos ymrwymiad clir gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo a chefnogi gwella FSSs cydnabyddedig o fusnesau bwyd a bwyd anifeiliaid yng Nghymru.

Tua deg ar hugain y cant yn unig o Fusnesau Cynhyrchu a Phrosesu Bwyd a Diod (FDMPB) yng Nghymru sy'n cydymffurfio â safonau FSS fel BRC neu SALSA. O ganlyniad, mae angen cael dealltwriaeth fanwl o'r rhwystrau sy'n bodoli i FDMPBs (micro a bach) weithredu, sicrhau a chynnal FSSs o'r fath.

Gall pennu data o'r fath lywio'r gwaith o ddatblygu mecanweithiau cymorth i alluogi achredu cynyddol a chyflymu twf y sector bwyd yn unol â dyheadau Llywodraeth Cymru.

Dull ymchwil

Defnyddiwyd triogliant o ddulliau ymchwil, gan gynnwys:

- Cynnal adolygiad desg er mwyn cael dealltwriaeth o FSSs sydd ar gael ac i werthuso pa mor gadarn, mawr eu parch, credadwy ac ymarferol yw'r cynlluniau,
- Cyfres o grwpiau ffocws gyda rhanddeiliaid, archwilwyr/mentoriaid FSS, FDMPBs Cymreig a chwblhawyd

cyfweliadau manwl gyda chynrychiolwyr manwerthu i nodi a deall beth yw'r rhwystrau i gyflawni achrediad i FSSs.

- Cynnal holiadur hunan-gwblhau ar-lein gyda FDMPBs a rhanddeiliaid i benderfynu sut i gymhwyso FDMPBs i gael cydymffurfiaeth i FSSs; ac mae
- Canfyddiadau ymchwil cronus yn galluogi gwneud argymhellion i gefnogi FDMPBs yng Nghymru i gyflawni cydymffurfiaeth FSS a fydd yn arwain at dwf yn unol â thargedau Cynllun Gweithredu.

Darganfyddiadau

Gwerthuso'r FSSs sydd ar gael

Nododd yr adolygiad desg fod 30 FSSs ar gael ar hyn o bryd ac wedi'u gweithredu gan FDMPBs yng Nghymru, targedwyd y rhan fwyaf (93%) at yr FDMPB. Nodwyd bod yna ddiffyg gwybodaeth hygyrch i'r FSSs ar gyfer FDMPBs, yn enwedig o ran cost.

Gyrwyr ar gyfer cydymffurfiaeth ag FSS

O'r grwpiau ffocws, y ddau ffactor allweddol a nodwyd fel gyrwyr ar gyfer cael cydymffurfiaeth ag FSSs oedd:

- gofynion y cwsmer, a
- diogelwch cynnyrch.

“Os nad yw gennych chi, ni allwch fasnachu.” (FDMPB).

“Gofynion y cwsmer yw'r prif beth. Os na fyddent yn ei fynnu, a fyddem yn gwneud hyn i gyd?” (FDMPB).

“Yr un chyfreithiol allweddol yw y bydd hyn yn cynhyrchu cynllun amddiffyniad diwydrwydd dyladwy effeithlon pe bai fyth angen iddynt alw arno.” (Mentor FSS).

Manteision cydymffurfio ag FSS

Nodwyd pum ffactor fel manteision ar gyfer FDMPBs ar gyfer sicrhau a chynnal cydymffurfiaeth yn ymwneud â:

- diwylliant a chymuned;
- twf busnes;
- diwydrwydd dyladwy;
- gwarchod brand, a



Datblygu Gwybodaeth a Sgiliau

Mae'r argymhellion hyn yn anelu at gynyddu'r gronfa o unigolion dysgedig o fewn y sector. Caiff hyn ei danategu gan ddatblygiad rhwydwaith technegol i alluogi lledaenu gwybodaeth pwnc-benodol a hwyluso dysgu a datblygu cyfoedion.

Argymhelliad 1: Archwilio'r posibilrwydd o gymorth ariannol (megis bwrsariaethau, ysgoloriaethau a hepgor ffioedd) ar gyfer myfyrwyr i gwblhau cymwysterau uwch sy'n gysylltiedig â bwyd neu addysg bellach i gynyddu'r nifer o Dechnolegwyr Gwyddor Bwyd cymwys gyda gwybodaeth FSS penodol o FSSs drwy gynyddu niferoedd sy'n mynychu cyrsiau AU ac AB.

Argymhelliad 2: Darparu rhaglenni trosglwyddo gwybodaeth ôl-raddedig (er enghraifft, KITE) sy'n canolbwyntio'n benodol ar FSS i alluogi pontio i raddedigion a dysgu parhaus o addysg i mewn i ddiwydiant.

Argymhelliad 3: Ystyried cynllunio a datblygu hyfforddiant staff pwrpasol ar y safle sy'n benodol i'r pwnc (FSS), ac archwilio'r posibilrwydd o 'hyfforddiant lleol hyblyg ac wedi'i rannu' rhwng FDMPBs lleol lluosog. Creu rhaglen ymsefydlu hyfforddiant bwyd ar gyfer gweithwyr newydd o gefndiroedd nad ydynt yn rhai bwyd er mwyn cael gwybodaeth FSS penodol a'r sgiliau technegol sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth yn y diwydiant bwyd.

Argymhelliad 4: Hyfforddiant gweithgaredd wedi'i dargedu'n benodol ar gyfer datblygu, gweithredu a chynnal a chadw dogfennaeth FSMS.

Argymhelliad 5: Ystyried datblygu hyfforddiant archwilio er mwyn sicrhau bod FDMPBs yn 'barod ar gyfer

archwiliad' i wneud y gorau o'r potensial ar gyfer profiad archwilio cadarnhaol

Argymhelliad 6: Annog Arloesi Bwyd Cymru i ddatblygu Grŵp Cydymffurfiaeth Technegol rhanbarthol Cymru Gyfan (TCG) i gynnwys rhanddeiliaid, manwerthwyr, Perchnogion Cynllun ac FDMPBs. Byddai hyn yn darparu strwythur cefnogi rhwydweithio i alluogi FDMPBs Cymreig i gyfathrebu, i gael gafael ar a derbyn gwybodaeth ynglŷn ag FSSs.

Argymhelliad 7: Ehangu ar y cyfleoedd rhwydweithio a ddarperir gan y TCG drwy greu categori cynnyrch system fentora "Grŵp cyfoedion FDMPB".

Argymhelliad 8: I sicrhau bod mentora ar y safle yn parhau'n hygyrch ac yn fforddiadwy. Rhaid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod mentora ar y safle yn cael ei ddarparu gan fentoriaid cymwys a phrofiadol sy'n gallu tynnu ar eu profiad ymarferol o fewn y diwydiant.

Gwella Gwybodaeth a Chyfathrebu

Mae'r argymhellion gwybodaeth a chyfathrebu yn ymwneud â'r cyfathrebu rhwng perchnogion cynllun ac FDMPBs a hefyd yn ystyried potensial cyfathrebu i gynyddu ymwybyddiaeth defnyddwyr o FSSs.

Argymhelliad 9: Mae angen ymchwil i ymchwilio i fecanweithiau hyfforddiant ac addysg ar-lein cyfredol ac i werthuso hygyrchedd, derbynoldeb, cywirdeb ac effaith posibl mecanweithiau o'r fath ar FDMPBs.

Argymhelliad 10: Mae angen ymchwil pellach gyda pherchnogion cynllun ynghylch cysondeb archwilydd. Mae angen cyfathrebu'r gofynion cymhwysedd gofynnol a osodir gan berchnogion cynllun ar gyfer arolygwyr/archwilwyr yn y parth cyhoeddus.

Argymhelliad 11: Ystyried cynnal ymchwil defnyddwyr ac ymchwil perchennog cynllun i fanteision cynyddu ymwybyddiaeth defnyddwyr o FSSs. Archwilio'r costau o wneud FSSs yn rhai ar gyfer defnyddwyr, a'r effaith bosibl ar ddefnyddwyr, canfyddiadau, ymddygiad a

pharodrwydd i dalu am gynnyrch bwyd gydag FSSs hysbysedig.

Argymhelliad 12: Mae angen i'r Asiantaeth Safonau Bwyd wahanu data ar gyfer safleoedd FDMPB o farchnadoedd arlwyo a lletygarwch i wella tryloywder gwybodaeth.

Argymhelliad 13: Ymchwilio i'r gorgyffwrdd posibl rhwng gofynion yr FHRs ac FSSs 3ydd parti eraill i benderfynu ar y gofyniad ar gyfer archwiliadau safle lluosog. Gall hyn leihau'r baich o ran archwiliadau lluosog ar FDMPBs a chael effaith gadarnhaol ar ddyraniad amser/llwyth gwaith Swyddog lechyd yr Amgylchedd.

Argymhelliad 14: Ystyried y potensial o gyfuno FSSs â'r nifer o archwiliadau er mwyn atal dyblygu gweithgareddau, lleihau costau a baich ar y FDMPBs.

Argymhelliad 15: Gallai mwy o ystyriaeth gael ei roi i faint y busnes a nifer yr aelodau staff sy'n ymwneud â gweithrediad yr FSMS gan y perchennog cynllun neu ddarparwr gwasanaeth.

Argymhelliad 16: Dylid cytuno ar isafswm set o feini prawf FSS gan y diwydiant bwyd a diod, a dylai pob perchennog cynllun sicrhau bod y wybodaeth ar gael i'w rhanddeiliaid.

Argymhelliad 17: Mae angen mwy o gyfathrebu i FDMPBs ynghylch argaeledd FSS a'r manteision posibl gan ddeiliaid cynllun.

Argymhelliad 18: Annog FIW i ddatblygu porth gwybodaeth a fyddai'n gweithredu fel canolfan wybodaeth ar gyfer FDMPBs Cymreig. Byddai arbenigwyr o fewn FIW yn gyfrifol am gynnal y llyfrgell dogfennau a lledaenu'r papurau gwyn sy'n berthnasol i fusnesau bwyd a diod. Gallai mynediad i adroddiadau a chanllawiau awdurdodol alluogi FDMPBs i wneud penderfyniadau gwybodus yn seiliedig ar ffeithiau ac arfer gorau.

Mynediad at gymorth ariannol

Er bod angen cymorth ariannol ar gyfer gweithredu'r dulliau a argymhellir, awgrymir yn ogystal gefnogaeth ariannol ar gyfer caffael adnoddau.

Argymhelliad 19: Cymorth ariannol ar gyfer FDMPBs ar gyfer gwariant cyfalaf (e.e. adeiladu a chyfarpar) i gael ei ddogfennu yn ystod y prosesau cais perthnasol.

Argymhelliad 20: Mae angen mwy o gyfeirio gwybodaeth i alluogi FDMPBs i gael gafael ar gymorth ariannol sydd ar gael ar hyn o bryd i alluogi cwmpasu costau hyfforddi.

Argymhellion Ymchwil

Mae cwblhau'r prosiect hefyd wedi nodi meysydd ychwanegol i ymhelaethu ar yr ymchwil.

Argymhelliad 21: Mae angen parhau i gasglu data cyfredol i gymharu nifer yr FDMPBs gyda'r FSSs fel canran o'r holl FDMPBs rhanbarthol i gael golwg realistig i'r rhif FDMPBs gwirioneddol yng Nghymru gydag FSSs.

Argymhelliad 22: Ehangu ar yr ymchwil a gynhaliwyd i gymharu cynnwys FSS i bennu gwahaniaethau allweddol mewn gofynion cynllun. Yn ôl ei natur, bydd yr ymchwil hwn yn nodi dyblygu mewn cynnwys FSS ac yn bwysicach byddai'n nodi gofynion cynllun unigryw a allai alluogi busnesau i gael mynediad i gyfleoedd newydd yn y farchnad a sicrhau twf.

Argymhelliad 23: Er mwyn adeiladu ymhellach ar y canfyddiadau a nodwyd yn yr adolygiad desg o FSSs, argymhellir bod y fethodoleg ymchwil yn cael ei hymestyn i gyfathrebu â phob perchennog cynllun i ddal gwybodaeth cynllun nad yw ar gael yn y parth cyhoeddus.

Argymhelliad 24: Ymgymryd ag arolwg blynyddol o weithgaredd cydymffurfio FSS o fewn y sector Bwyd a Diod i bennu effaith y mecanweithiau cymorth sydd ar waith a nodwyd yn yr ymchwil hwn.

Argymhelliad 25: Dylid cynnal trafodaethau gyda rheolwyr cynlluniau FSS a'r busnesau cadwyn fwyd er mwyn penderfynu ar ymarferoldeb defnyddio sail gydnabyddiaeth a enillir at arolygiadau/archwiliadau.

BWYD A DIOD CYMRU
FOOD AND DRINK WALES



www.gov.wales/foodanddrinkwales

bwyd-food@wales.gsi.gov.uk

 @FoodDrinkWales